To be promoted via online job boards in Wales; LinkedIn etc.

Ai chi yw ein gweithiwr cyswllt ymchwil Cymraeg nesaf?

Mae Pye Tait Consulting yn asiantaeth ymchwil cymdeithasol yn canolbwyntio ar ddarparu atebion i gwestiynau mawr ein cleient. O astudiaethau gwybodaeth am y farchnad lafur i werthusiadau, ac o ymchwil sgiliau i ddadansoddi ymatebion ymgynghoriadau, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n helaeth dros gleientiaid cyhoeddus a thrydydd sector yn bennaf am bron i 35 mlynedd.

Mae llawer o'n prosiectau ymchwil wedi ceisio ymatebion gan unigolion yng Nghymru, yn amrywio o arweinwyr busnes i aelodau o'r cyhoedd, ac wedi defnyddio ystod o fethodolegau megis arolygon dros y ffôn ac ar-lein, cyfweliadau manwl a grwpiau ffocws rhithwir.

Rydyn ni bellach yn chwilio am un neu fwy o weithwyr cyswllt ymchwil i ymuno â'n cronfa dalent sy'n angerddol dros ymchwil ac yn rhugl yn y Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig.

O bryd i'w gilydd gall hyn gynnwys gweithgareddau megis (ond heb eu cyfyngu i):

- Cynnal cyfweliadau ymchwil ad hoc yn y Gymraeg ac yna eu hysgrifennu a darparu ni â nodiadau yn Saesneg
- Cyd-hwyluso cyfarfodydd rhithwir neu grwpiau ffocws lle efallai bydd angen cyfieithiadau Cymraeg/Saesneg
- Cyfieithu offer ymchwil o'r Saesneg i'r Gymraeg ac ymatebion o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Nodwch mai fel rhan o drefniant o weithio fel gweithiwr cyswllt, ni ellir gwarantu isafswm o waith.

Yn hanfodol

- Addysg hyd at lefel gradd o leiaf
- Yn rhugl yn y Gymraeg yn llafar ac yn ysgrifenedig
- Yn brofiadol mewn cynnal ymchwil

Yn ddymunol

- Ar hyn o bryd yn hunangyflogedig fel gweithiwr cyswllt ymchwil, gyda hanes blaenorol gweladwy

Os ydych chi'n credu eich bod yn addas ar gyfer y swydd, ymgeisiwch drwy anfon eich CV a llythyr eglurhaol (yn Saesneg) i: careers@pyetait.com